**ELL 06-01(cofn)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 21 Mawrth 2001

**Amser:** 2.30pm

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

*Aelodau*

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Caerdydd |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau**

Christine Humphreys

**Swyddogion**

Richard Davies

Derek Adams

Keith Davies

Alan Lansdown

Tony Widdrington (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd ac Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf

***2.00pm – 2.30pm: Cyfarfu'r Pwyllgor mewn sesiwn caeedig i holi'r Athro Les Hobson (Ymgynghorydd Arbenigol) ar ei grynodeb a'i ddadansoddiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn.***

**Sesiwn Cyhoeddus**

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Christine Humphreys wedi ymddiswyddo o'r Cynulliad, a hynny'n weithredol o 31 Mawrth, o achos ei hiechyd. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Christine Humphreys am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor hwn a hefyd i'r Pwyllgor Addysg Ôl-16 (sydd bellach wedi peidio â bod) a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

**Eitem 1: Adroddiad gan Weinidog y Cynulliad**

***Papur: ELL 06-01(p.1)***

1.1 Rhoddodd y Gweinidog ei hadroddiad misol o'r Pwyllgor mewn perthynas â materion cyfredol ac eitemau yr oedd yr Aelodau wedi'u codi.

1.2 Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor fod cyrff dyfarnu wedi'u gwahodd, ar 2 Mawrth, i dendro am brosiect datblygu a rhagbrofi'r Fagloriaeth Gymreig. Yr oedd y Gweinidog wedi derbyn y tendrau hyn a bwriadai sefydlu grwp llywio.

1.3 Pwysleisiodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mor bwysig oedd lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion. Er mwyn helpu i gyflawni hynny, yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu grwp gorchwyl ar y cyd o dan nawdd y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol. Byddai'r grwp gorchwyl yn canfod y ffactorau allweddol a gyfrannai at berfformiad cyson dda mewn ysgolion. Yr oedd y grwp i fod i gynnal ei gyfarfod cyntaf yn Ebrill a disgwylid y byddai'n cyflwyno ei adroddiad i'r Cyngor Partneriaeth ar ôl tua 12 mis.

1.4 Adroddodd y Gweinidog ei bod wedi ysgrifennu at John Andrews, Cadeirydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, gan ei fod wedi cysylltu â hi ar ôl cyflwyniad Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf (7 Mawrth). Teimlai y dylid ailedrych ar y rhagdybiaeth y dylid ariannu'r Cyngor i raddau helaeth o'r incwm cofrestru yn 2001-02. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i gael cyfnod 'rhedeg i mewn' hwy a dangosai i athrawon eu bod yn cael gwerth am y tâl cofrestru. Yr oedd y Gweinidog yn obeithiol, ar ôl adolygu cyllidebau'r flwyddyn nesaf, y gallai ddarganfod digon o arian i gwrdd ag anghenion ychwanegol agosaf y Cyngor.

1.5 Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor fod copi, ymysg y papurau a ddosbarthwyd ar gyfer y cyfarfod hwn, o'r rheoliadau diwygio arfaethedig a'r gorchymyn ar gyfer swyddogaethau ychwanegol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Os dymunai'r Aelodau wneud sylwadau, dylid eu hanfon drwy'r Clerc erbyn 11 Mai.

1.6 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ei bod, yn gyfochrog â'r Gweinidogion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi cyhoeddi papur ymgynghorol ar ddatblygu rôl y Rhwydwaith Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol. Prif swyddogaeth y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol oedd asesu anghenion medrau a chwrdd â'r blaenoriaethau dilynol.

1.7 Cyfeiriodd y Gweinidog wedyn at gyhoeddi 'Schools (Building On Success) Green Paper for England' y gellir ei weld yn Atodiad A i *ELL 06-01(p.1)*

1.8 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai, ar ôl canlyniad achos Marjorie Evans (Pennaeth Ysgol Iau y Santes Fair, Caldicot), yn edrych ar y gweithdrefnau a ddilynwyd gan yr awdurdod addysg lleol (AALl). Os teimlai'r Gweinidog fod yr AALl/corff llywodraethol wedi gweithredu'n afresymol, yna o dan Adran 496 o'r Ddeddf Addysg 1996, byddai ganddi hawl i gyfeirio nhw i adolygu ei weithdrefnau yn yr achos hwn. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi gwrthod amryw o geisiadau i roi cyfweliadau ar y cyfryngau am yr achos.

1.9 Adroddodd y Gweinidog fod rhai ysgolion yng Nghymru wedi'u cau oherwydd Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau - caewyd 18 o ysgolion ym Mhowys a dwy yn Ynys Môn. Mater i'r AALlau a'r cyrff llywodraethol oedd a fyddai ysgolion yn aros ar agor neu ar gau. Fodd bynnag, yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi arweiniad: y rhagdybiaeth oedd y dylai ysgolion aros ar agor, lle y bo modd, ond y dylai'r disgyblion/athrawon gyfyngu eu symudiadau os buont yn agos i dda byw. Os oedd ysgol wedi'i lleoli yng nghanol cychwyniad o'r clwy, rhagdybid y byddai'r ysgol yn cau. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor gopïau o'r cyngor oddi wrth swyddogion y Cynulliad at yr AALlau, mewn perthynas â'r camau a oedd i'w cymryd yn ystod y cychwyniad presennol. Adroddodd y Gweinidog hefyd bod rhyw 166 ysgol wedi cau oherwydd yr eira a fu yng Nghymru dros y 24 awr diwethaf ond petae na ddim mwy dros nos y ddylent ail agor yfory.

1.10 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd pryder na fyddai'r TGAUau galwedigaethol arfaethedig yn cwmpasu agenda'r Cynulliad Cenedlaethol – datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynorthwyo rhai o dan anfantais gymdeithasol. Nodwyd bod Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) a'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yn cydweithio'n agos ar y mater hwn. Yr oedd y Gweinidog yn barod i ystyried awgrymiadau ysgrifenedig oddi wrth yr Aelodau.
- Mynegodd rhai Aelodau'r farn y dylid galw'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd alwedigaethol yn syml yn Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd, hefyd a fwriadwyd i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ddatblygu a chynnwys y cymhwyster galwedigaethol newydd? Nodwyd bod angen defnyddio'r un derminoleg drwodd draw er mwyn cynnal parch cydradd at y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd alwedigaethol a'r un academaidd. Yr oedd yr Adolygiad Cwricwlwm diwethaf wedi cyflwyno newidiadau gan adael cwricwlwm a oedd yn un pendant Gymreig. Nid oedd angen cynyddu'r baich drwy orfodi adolygiad arall o'r Cwricwlwm ar hyn o bryd, gan fod un i fod i ddechrau ymhen 18 mis - dwy flynedd.
- Gofynnodd y Cadeirydd a ddylid cael un Cwricwlwm Cenedlaethol cyffredinol i Gymru. Nodwyd ei bod yn bwysig sut y câi'r 'Cwricwlwm Cymreig' ei fynegi drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon a deunyddiau dysgu ategol. Yr oedd y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol wedi'i lunio ar gyfer Cymru. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu'r Cwricwlwm fel y dywedwyd eisoes.

Y Fagloriaeth Gymreig: Gwnaethpwyd cais gan un Aelod i'r grwp llywio ar gyfer datblygu'r Fagloriaeth Gymreig ymddangos gerbron y Pwyllgor. Addawodd y Cadeirydd ystyried y cais hwn. Awgrymodd Aelod arall y dylai'r grwp llywio fod yn rhydd i newid cynnwys y Fagloriaeth Gymreig i adlewyrchu nodau'r Cynulliad. Addawodd y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor drwy ei hadroddiad misol.

- Lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion: Yr oedd pryder ynghylch y modd y byddai'r grwp gorchwyl ar y cyd, o dan nawdd y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol, yn cyflawni mesurau heb fuddsoddi anferth. Nodwyd y gellid rhoi copïau o adroddiadau'r grwp gorchwyl i'r Pwyllgor er gwybodaeth. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cadeirio bob yn ail gyfarfod o'r tasglu. Cymerai Estyn ran mewn perthynas â ffactorau sydd yn effeithio ar berfformiad.

- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru: Yr oedd un Aelod yn bryderus na fyddai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n cofrestru athrawon yn Gymry. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymwybodol o'r mater hwn ac y'i codai gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

1.11 Cododd y Pwyllgor y materion canlynol ar y Papur Gwyrdd o fewn adroddiad y Gweinidog:

- Cododd rhai Aelodau bwnc Lle i Ysgolion a'r Celfyddydau – a fyddai 'dysgu y tu allan i oriau ysgol' yn defnyddio adeiladau ysgolion? Nododd un Aelod fod Estyn wedi adrodd nad oedd adnoddau'n broblem sylweddol ar gyfer chwaraeon mewn ysgolion, ond na chaniateid digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer gweithgareddau o'r fath. Dywedodd y Gweinidog fod tua £155,000 wedi'i ddyrannu i ariannu Addysg a Mwy i redeg prosiect peilot ar weithgareddau 'y tu allan i oriau ysgol'. Yn ogystal â hynny, dyrennir arian i ddatblygu gweithgareddau creadigol ar gyfer dysgu 'y tu allan i oriau ysgol'. Yr oedd y Pwyllgor Diwylliant yn datblygu'r agenda hon ar hyn o bryd gyda'i 'Adolygiad Diwylliant Cytûn' a thrafodid hyn yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth. Dywedodd y Gweinidog y dylent fod wedi derbyn adroddiad y Tasglu Addysg Gorfforol/Chwaraeon Ysgol, a wnaeth argymhellion ynghylch cyfyngiadau amser a darparu gweithgareddau Addysg Gorfforol yn ystod y diwrnod ysgol.
- Yr oedd pryder nad oedd Cymru, mewn cyferbyniad â Lloegr, yn croesawu ysgolion arbenigol, yn ôl pob golwg. Nodwyd bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr â llywodraeth leol i fynd i'r afael â thanfuddsoddi gan y llywodraeth flaenorol. Nod y Cynulliad Cenedlaethol oedd sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru'n cael mynediad i addysg o safon uchel ac ansawdd da.
- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch y cytundeb Partneriaeth ac amcan y Cynulliad Cenedlaethol o leihau maint yr holl ddosbarthiadau babanod i 25 o fewn tymor nesaf y Cynulliad – a fyddai angen deddfwriaeth i ddylanwadu ar y fenter/targed yma? Hefyd, gofynnwyd pa bryd y byddai ysgolion yng Nghymru yn derbyn yr arian ar gyfer adeiladau ysgol a chyhoeddwyd yng nghyllideb y Ganghellor. Nodwyd nad oedd angen deddfwriaeth ar gyfer y targed i leihau maint dosbarthiadau. Gyda golwg ar yr arian ar gyfer adeiladau ysgol, ni ellid ei ddyrannu ar sail y gwariant yn Lloegr. Byddai'r Gweinidog yn rhoi'r achos am wariant ysgolion i'w chydweithwyr yn y Cabinet.

**Eitem 2: Monitro Polisi Estyn – Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd**

2.1 Cyflwynodd Miss Susan Lewis, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru brif ganfyddiadau ei hadroddiad blynyddol am y flwyddyn academaidd 1999-2000. Gellir gweld copi o'i sleides yng nghlwm.

2.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Mynegodd rhai Aelodau'r pryder bod y system arolygu ysgolion (gan gynnwys y cyfnod rhybudd o 12 mis a roddid) yn achosi straen gormodol ymysg staff dysgu. Nodwyd bod Estyn yn monitro'r system yn gyson, gyda golwg ar wneud gwelliannau, a'i fod ar hyn o bryd yn ymgynghori ag amrediad eang o grwpiau ym maes addysg. Galluogodd y cyfnod rhybudd o 12 mis fel y gellid cydweddu timau arolygu â gofynion daearyddol ac ieithyddol pob ysgol unigol; yr oedd hyn yn rhan o sicrwydd ansawdd.

- Gofynwyd i'r Prif Arolygydd os oedd ganddi unrhyw cynlluniau i addasu y broses arolygu. Atebai bod Estyn yn bwriadu cyflwyno framwaith cyffrefin erbyn 2004.
- Mynegwyd pryder bod y broses arolygu'n rhy ddiagnostig a dadansoddol ac na wnâi lawer i helpu ysgolion. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod Estyn wedi cynghori/cynorthwyo AALlau ac ysgolion fel rhan o'r gweithdrefnau ôl-arolygu ond roedd rhaid seilio hwn ar dystiolaeth yr arolygiad.
- Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod gwendidau yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ledled y sector Ol -16 ac nad oedd digon o gyfleoedd ar gyfer addysg ddwyieithog yn y sector Addysg Bellach. Yr oedd y Pwyllgor yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn trosglwyddo'r neges hon i ELWa i'w chynnwys fel rhan o'i gylch gwaith nesaf.
- Bu rhywfaint o drafodaeth am gyfraddau presenoldeb ysgolion mewn ardaloedd sydd o dan anfantais gymdeithasol ac ailintegreiddio plant a ddieithriwyd yn gymdeithasol mewn ysgolion ac a oedd hyn yn cael effaith negyddol ar athrawon a disgyblion eraill. Nodwyd bod cyfraddau presenoldeb ysgol mewn ardaloedd sydd o dan anfantais gymdeithasol yn waeth fel arfer na'r rhai mewn ardaloedd mwy breintiedig. Mewn perthynas ag ailintegreiddio, yr oedd angen cadw'r ddysgl yn wastad wrth ailgynnwys disgyblion a ddieithriwyd gan beidio â rhoi'r gweddill o dan anfantais.
- Teimlai'r Pwyllgor fod adroddiad y Prif Arolygydd yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi ac hefyd yn dylanwadu dosbarthiad arian Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd ei bod yn holl bwysig darllen adroddiadau Estyn ar nifer o destunau a gweithredu ar eu sail. Efallai fod angen adborth mwy systematig oddi wrth AALlau ac ysgolion.
- Nodwyd o'r adroddiad (t.61) gyda golwg ar Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol fod gwendidau yng ngallu hyfforddeion i ddefnyddio gwybodaeth asesu a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Yr oedd Estyn wedi cyflwyno ei adroddiad ar y mater hwn i'r Pwyllgor ym Medi 2000. Yr oedd hyfforddiant mewn coleg o gymorth ond roedd angen mwy o fuddsoddi mewn offer modern a hyfforddiant athrawon presennol i gynyddu y ddefnydd o TGCh mewn ysgolion.
- Mynegodd yr Aelodau bryder bod perygl posibl o orbwysleisio dysgu ffurfiol ar draul meithrin gallu creadigol mewn plant cyn oed ysgol. Nodwyd ei bod yn holl bwysig cael cydbwysedd pendant rhwng hybu a meithrin gallu creadigol a datblygu medrau sylfaenol.
- Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig bod Estyn yn mesur materion fel cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy yn eu hasesiadau o sefydliadau. Nodwyd bod Estyn yn arolygu pob agwedd ar gyfle cyfartal. Yr oedd llawer i'w wneud eto gyda golwg ar gynhwysiant cymdeithasol mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Hyfforddi Athrawon; yr oedd fframwaith hyfforddiant athrawon cychwynnol a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

**Eitem 3: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad Thema Allweddol – Ariannu – Syr William Taylor a'r Athro Steve Smith, ar ran Addysg Uwch Cymru.**

***Papur: ELL 06-01(p.2) a (p.3)***

3.1 Cyflwynodd yr Athro Syr William Taylor, Cadeirydd Grwp Adolygu Dewisiadau Ariannu Prifysgolion y DU drafodaeth ar thema Ariannu. Yr oedd Prifysgolion y DU (Pwyllgor Is-gangellorion a Phrifathrawon Prifysgolion y Deyrnas Unedig cynt) newydd gwblhau adolygiad blwyddyn o hyd ledled y DU o ddewisiadau ariannu addysg uwch. Canolbwyntiwyd yn yr adolygiad ar ariannu sefydliadau.

Rhoddodd yr Athro Taylor arolwg o'r adroddiad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Rhoddodd yr Athro Steve Smith, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru, Aberystwyth, gyflwyniad ar ran Addysg Uwch Cymru, a oedd yn seiliedig ar ei bapur.

3.2 Gellid dadlau mai ychydig o newid a fu dros y degawd diwethaf yn yr amrediad o ddewisiadau ariannu posibl. Yr oedd y dewis mwyaf sylfaenol rhwng ariannu drwy drethiant cyffredinol ac ariannu uniongyrchol gan fuddiolwyr.

3.3 Yn ymarferol, nid oedd yr un brifysgol bron a ddibynnai'n gyfan gwbl ar un ai trethiant cyffredinol neu daliadau gan fyfyrwyr presennol a blaenorol. Cymysgedd o foddau o'r fath a geid ym mhob man i bob pwrpas. Felly, yr oedd y materion yr oedd angen eu trafod yn ymwneud yn bennaf â'r priod gyfraniadau gan ffynonellau cyhoeddus a phreifat a'r modd y mae cyfraniadau o'r fath yn llifo i sefydliadau.

3.4 Yn sylfaenol, dros yr 20 mlynedd diwethaf, o ganlyniad i ehangu a danariannwyd, bu gostyngiad o fwy na 50 y cant yn yr adnoddau i bob myfyriwr. Yr oedd hyn wedi gostwng y cymarebau staff-myfyriwr cyfartalog o 1:9 i 1:17 ac os na chynhwysid yr arian ar gyfer ymchwil yn yr uned ariannu gyfartalog, i 1:23.

3.5 Yr oedd y gofyniad ariannu'n cynnwys sawl elfen:

- cynnal gallu prynu'r lefelau grant cyfredol yn 2003-2004;
- cynyddu'r swm o £170 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer recriwtio a chadw staff erbyn 2003-2004;
- cwrdd â'r gofynion statudol sydd ar sefydliadau i gynnig tâl cyfartal am waith cyfartal;
- cywiro'r tanfuddsoddiad yn y seilwaith a chyflawni holl ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a
- cynyddu i 20 y cant y 'premiwm cod post', fel y'i gelwir, sydd â'r bwriad o hybu recriwtio a chadw myfyrwyr difreintiedig.

Gyda'i gilydd, gallai'r eitemau hyn gynyddu cyfanswm y gofyniad ariannu i £900 miliwn y flwyddyn.

3.6 Gyda'i gilydd ystyriwyd wyth o ddewisiadau ariannu gwahaniaethadwy ac i gloi, rhoddwyd cyfiawnhad dros bedwar dewis i'w hystyried ymhellach. Y rhain oedd: ariannu cyhoeddus uwch, ffioedd yn ôl y farchnad, incwm graddedigion-cyfraniadau achlysurol a gwaddoli sefydliadol, y trafodir pob un ohonynt yn fanwl yn yr adroddiad. Gwrthodwyd y pedwar dewis arall ar sail dichonoldeb ymarferol a gwleidyddol, sef: ffioedd hyfforddi uwch y byddai benthyciadau yn amodol ar incwm ar gael ar eu cyfer; diddymu grantiau dysgu'r Cyngor Cyllido, dadreoleiddio ffioedd a chronfa bwrsari a waddolir gan y cyhoedd i gynorthwyo myfyrwyr mewn angen; cyfrifon dysgu unigol a Chynllun Cubie/ Senedd yr Alban.

3.7 Hysbysodd yr Athro Taylor y Pwyllgor bod yr Is-gangellorion wedi ystyried yr Adroddiad Dewisiadau Ariannu yn eu cyfarfod yn Newcastle ddechrau Mawrth 2001. Yr oeddent wedi derbyn yr adroddiad fel sylfaen i barhau â'r ddeialog â'r cyfranogion, cyn ac ar ôl yr Etholiad Cyffredinol sydd yn dod.

3.8 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch pa fodel ariannu Addysg Uwch yng Nghymru y dylid ei fabwysiadu. Nodwyd, gan fod trafodaethau'n parhau o hyd ynghylch adroddiad Prifysgolion y Deyrnas Unedig, na ellid dynodi un model yn unig, ac y gellid penderfynu bod cyfuniad o fodelau'n ateb mwy ymarferol/priodol.
- Gofynnodd y Cadeirydd, pe bae y bwlch ariannu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn barhau, a allai Cymru datblygu a chynnal prifysgol ymchwil o safon fyd-eang. Dywedodd yr Athro Taylor fod gan Gymru bresenoldeb cryf eisoes o ran ymchwil prifysgol ac, os crynhoir ymchwil mewn nifer bach o sefydliadau, byddai'n bwysig bod trefniadau'n bodoli fel bod ysgolheigion ac athrawon a oedd yn weithgar mewn ymchwil mewn rhannau eraill o Gymru yn gallu cyfrannu o'u harbenigedd disgyblaethol a phroffesiynol. Ychwanegodd yr Athro Smith fod y sector Addysg Uwch yng Nghymru'n amrywiol, byddai gwahanol sefydliadau'n ymateb i wahanol fodelau ariannu. Pa bynnag fodel a fabwysiedid, yr oedd yn holl bwysig cau'r bwlch.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch peryglon posibl yr ariannu 'pot jam' (menter arbennig), fel y'i gelwid, ac a allai Cymru gyrraedd ei hamcanion strategol ar gyfer Addysg Uwch, gyda gostyngiad yn y math hwn o ariannu. Credai'r Athro Smith y gallai Cymru gwtogi ar gyfran yr adnoddau a âi i fentrau arbennig a dal i gyrraedd ei hamcanion. Yr oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban yn bwriadu cwtogi ar y math hwn o ariannu. Er mwyn bod â hyblygrwydd i ymateb i bosibiliadau a darganfyddiadau newydd, yr oedd yn bwysig i brifysgolion gael digon o ryddid yn y defnydd o adnoddau, tra'n cydnabod pwysigrwydd yr angen i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Yr oedd angen i lywodraethau a phrifysgolion ryngweithio'n agos â'i'gilydd.

- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch a allai ariannu fod yn fwy sensitif i genadaethau ac yn llai cystadleuol. Atebodd yr Athro Taylor mai beth bynnag fyddai'r anawsterau wrth ddyfeisio a sicrhau derbyniad i ariannu drwy fformiwlâu, y byddai'r meini prawf ar ôl eu sefydlu'n dryloyw o leiaf ac y gellid osgoi'r angen i gymharu hawliadau'n unigol. Fodd bynnag, yr oedd yn bwysig adolygu fformiwlâu'n rheolaidd.
- Holodd yr Aelodau ynghylch y fformiwla briodol ar gyfer yr uned o adnodd ariannu yng Nghymru. Dywedodd yr Athro Taylor mai mater i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru oedd hynny. Ychwanegodd yr Athro Smith nad oedd Addysg Uwch Cymru'n dymuno gweld gwahanu rhwng dysgu ac ymchwil a'i fod yn dymuno gweld graddio'r Ymarfer Asesu Ymchwil, fel y'i defnyddir yng ngweddill y DU.
- Bu rhywfaint o drafodaeth am y lefel buddsoddi, mewn caledwedd a chostau rhedeg, a oedd yn ofynnol ar gyfer e-ddysgu. Gallai'r Athro Taylor weld llawer o bosibiliadau ar gyfer e-ddysgu, ond yr oedd yn rhaid wrth rywfaint o ofal. Yr oedd rhai pynciau nad oedd e-ddysgu'n addas ar eu cyfer a lle'r oedd cyswllt wyneb yn wyneb parhaus ag athrawon yn holl bwysig. Ychwanegodd yr Athro Smith fod cost gweithredu a chynnal e-ddysgu'n anferth; yr oedd yr arbedion posibl ymhell i ffwrdd. Cyfrifwyd mai cost datblygu model dysgu o bell unigol oedd £1 miliwn. Byddai ar Gymru angen polisi eglur ar e-ddysgu a byddai angen cydweithredu rhwng sefydliadau. Byddai angen cynnyrch o ansawdd uchel i sicrhau llwyddiant wrth gystadlu'n fyd-eang.
- Cododd y Pwyllgor fater costau dwyieithrwydd ar draws y sector, a meddwl tybed pam nad oedd ariannu sefydliadau'r DU/Cymru wedi'i feincnodi ag America. Dywedodd yr Athro Smith ei bod yn anodd amcangyfrif cyfanswm cost darpariaeth gyfrwng Cymraeg ond yr oedd Prifysgol

Cymru, Aberystwyth wedi wynebu costau o 4% o gyfanswm ei hincwm. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r gost ar draws y sector Addysg Uwch yn ei gyfanrwydd yn ddibwys. Cytunodd yr Athro Smith. Amhriodol fyddai meincnodi yn erbyn sefydliadau yn America gan fod holl faint y gwaddoliadau a'r sefydliadau eu hunain yn fwy na rhai'r DU.

- Cododd y Pwyllgor fater gweithio cydweithredol ar gyfer y sector Addysg Uwch yng Nghymru a sut y gallai hynny weithio, o ystyried maint cymharol fach llawer o sefydliadau addysg uwch Cymru. Atebodd yr Athro Taylor fod cydweithredu'n fwy tebygol o lwyddo os oedd cynigion a gychwynnwyd yn ganolog yn rhoi pob ystyriaeth i farn staff academaidd ac ymchwil.

3.9 Mewn ymateb i bapur Addysg Uwch Cymru, dywedodd y Gweinidog:

- Nid hi oedd yn gyfrifol am yr adroddiad papur newydd yn 'The Guardian' am y bwlch ariannu ond yr oedd wedi ymateb iddo.
- Dylai Addysg Uwch Cymru gydnabod bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud cryn ymdrechion i leihau'r bwlch i lai na 1%.
- Nid oedd y Cynulliad Cenedlaethol erioed wedi cynnig torri niferoedd y myfyrwyr er mwyn lleihau'r bwlch ariannu.

**Eitem 4: Cofnodion Cyfarfod 7 Mawrth**

**Papur: ELL 05-01(mins)**

Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod 7 Mawrth gan y Pwyllgor.

**Papurau i'w Nodi**

***Nodwyd y papurau canlynol gan y Pwyllgor*.**

***Papur i'w Nodi:* Llythyr oddi wrth Mr R.G. Bingham, Cadeirydd Gweithgor TGCh Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru ynghylch adroddiad y Pwyllgor at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a llythyr y Cadeirydd mewn ymateb.**

***Papur: ELL 06-01(p.4)***

***Papur i'w Nodi:* Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd at y Cadeirydd.**

***Papur: ELL 06-01(p.5)***

***Papur i'w Nodi:* Llythyr cylch gwaith y Cynulliad Cenedlaethol (2000-01) at Estyn.**

***Papur: ELL 06-01(p.6)***

***Papur i'w Nodi:* Llythyr ymgynghori a rheoliadau drafft ar gyfer Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.**

*Papur: ELL 06-01(p.7)*

**Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar ddydd Mercher 4 Ebrill 2001.**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2001**

**Cyhoeddir yr Atodiadau yn yr iaith a dderbyniwyd**

**ATODIAD A**

**Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd**
**Chief Inspector's Annual Report**

Mae gennym lawer i'w ddathlu!

There is a lot to celebrate!

**Adroddiad Blynyddol**
**Annual Report**

- gwelliannau yn sgîl arweinyddiaeth dda gan uwch reolwyr
- improvement through good leadership at senior management level

cafwyd y canlyniadau gorau erioed ym:

  - **mhrofion y CC**
  - **arholiadau TGAU**
  - **arholiadau safon Uwch**
- best ever results in:
  - **NC tests**
  - **GCSE examinations**
  - **A level examinations**

- mae'r ysgolion a cholegau ar y trywydd iawn i fodloni llawer o dargedau'r Cynulliad
- schools and colleges on target to meet many of the Assembly targets

- mae’r safonau yn parhau i godi
- standards continue to rise

- cyflawniad uchel mewn dosbarthiadau chweched dosbarth ac mewn llawer o feysydd rhaglen mewn sefydliadau addysg bellach
- high achievement in school sixth forms and many programme areas in further education institutions

- ysgolion arbennig - datblygiadau cyson ond gwendidau mewn 1 ysgol allan o 5
- special schools - steady development but weaknesses in 1 in 5 schools
- hyfforddiant athrawon - sefyllfa gadarnhaol ar y cyfan
- teacher training - generally a positive picture
- llawer mwy o bobl ifanc yn mynd ymlaen i addysg bellach
- large increase in numbers going on to further education

- gwaith oedolion, ieuenctid a chymunedol - darpariaeth anghyson o ran maint ac ansawdd
- adult, youth and community work

- uneven provision in quantity and quality

- ansawdd hyfforddiant-yn-y-gwaith a gwaith cwmniau gyrfaoedd yn amrywio llawer mwy nag ansawdd y gwaith mewn ysgolion a cholegau
- quality of work-based training and work of careers companies much more variable than that in schools and colleges

Y prif feysydd i weithredu arnynt:- ysgolion ac AALl
Main areas for action:-
schools and LEAs

- ennyn diddordeb myfyrwyr â phresenoldeb gwael a’r rheini na chyflawnant yn dda
- engaging poor attenders and those who are not achieving well

Y prif feysydd i weithredu arnynt:- materion trawsbynciol
Main areas for action:-cross-cutting issues

- cael y gorau gan bobl a manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd
- ***cymhelliant***

- ***diddordeb***
- ***presenoldeb***
- ***cadw myfyrwyr***
- getting the best out of people and opportunities
- ***motivation***
- ***engagement***
- ***attendance***
- ***retention***

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-ysgolion ac AALl
Main areas for action:-schools and LEAs

- parhau i wella medrau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh
- continuing to improve skills in literacy, numeracy and ICT

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-ysgolion ac AALl
Main areas for action:-schools and LEAs

- gwneud cynnydd gwell o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 a thrwy flynyddoedd 8 a 9
- making better progress from key stage 2 to key stage 3 and throughout years 8 and 9

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-ysgolion ac AALl
Main areas for action:-schools and LEAs

- gwella gwaith rheolwyr canol o ran monitro, asesu a chynllunio ar gyfer gwelliant
- improving middle managers' work in monitoring, assessing and planning for improvement

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-ysgolion ac AALl
Main areas for action:-schools and LEAs

- gwella ansawdd a gwaith cynnal a chadw adeiladau
- improving the quality and upkeep of buildings
- twf mawr mewn addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog mewn ysgolion
- large growth in Welsh medium and bilingual education in schools

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-
ôl-16
Main areas for action:-post-16

- gwella'r mynediad i addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog
- increasing access to bilingual and Welsh-medium education and training

Y prif feysydd i weithredu

arnynt
Main areas for action

- lleihau’r bwlch o ran perfforiad
- closing the gap in performance

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-
ôl-16
Main areas for action:-post-16

- gwella ansawdd y data
- defnyddio’r data i lywio’r gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant
- improving the quality of data
- use data to inform planning for improvement

Y prif feysydd i weithredu arnynt:-
ôl-16
Main areas for action:-post-16

- datblygu’r gwaith o reoli ansawdd darparwyr hyfforddiant galwedigaethol
- developing quality management of vocational training providers

Y prif feysydd i weithredu
arnynt:-materion trawsbynciol
Main areas for action:-cross-cutting issues

- casglu data ar gyflawniad grwpiau ethnig lleiafrifol
- collecting data on achievement in minority ethnic groups